Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Competition Brief

## Nail Technician

## Competition Overview

This competition is designed for learners who are enthusiastic and motivated to pursue a career within the nail industry. It provides an excellent opportunity for them to showcase their high level of skills and compete with peers from across Wales, giving them a platform to demonstrate their talent and professionalism.

The competition will challenge learners in key areas such as time management, Acrylic application, and attention to detail through creative nail art techniques. These are essential industry skills that will support their development and build confidence in a professional setting.

Participating in this competition will enhance learners' experience and provide valuable evidence for their portfolio and CV, supporting future job applications within the industry.

As Acrylic  is currently one of the most in-demand nail treatments, aligning the competition with this trend will further strengthen learners' employability skills and ensure they are developing relevant, up-to-date techniques that employers are looking for.

Live competition heats will be held at various venues across Wales.

## Entry Criteria

The competition is for those training for a career in the Nail Technology industry and studying towards a recognised Level 3 beauty or nail qualification, or apprenticeship, through an awarding body. Level 2 may also enter but please ensure your entrants have the skills and competencies to complete the tasks.

## Entry capacity restrictions by organisation

Maximum of 2 per **location**. **Reserves** may also be registered to account for potential absences or withdrawals.

In the event that capacity is exceeded, a passive stage will be introduced. Competitors will be

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2027 – Skills Competition Wales 2027

required to submit a mood board for review, from which the finalists will be selected. If this stage becomes necessary, further details will be communicated by the Competition Lead.

This is the maximum number of entries permitted by an organisation for this competition. This is determined by 'location' and 'organisation'. 'Organisation' refers to the competitors' training provider/employer. 'Location' refers to a site where the competitor studies / is employed.

This competition may be subject to a selection process if competitor registration numbers exceed the host venue capacity. Where capacity is identified in a competition the reserve competitors may be invited to compete. The decision will be made following a consultation between Skills Competition Wales and the competition lead after registration closes. All parties will be notified of any changes.

For further guidance on these capacities, click here.

## Brief

Competitors are required to complete a full set of nail extensions with a natural pink Acrylic overlay, finished with nail art using a minimum of three different mediums. Please make sure a consultation is completed with your client before the treatment and brought with you on competition day.

**Task 1 – Preparation, Tip Application and Blending (1 hour)**
Competitors must carry out nail preparation, followed by the application and blending of natural nail tips (transparent tips are not permitted). This stage will be assessed for competency and technique.

**Task 2 – Acrylic Application (1 hour)**
Competitors are required to apply a full coverage of Acrylic  overlay across the natural nail and extensions. The application must demonstrate a clearly structured apex and a neat, professional finish.

**Task 3 – Nail Art Application (30 minutes)**
Competitors must create a nail art design on a minimum of four nails, using at least three different nail art mediums and following the theme of Welsh. Examples of acceptable mediums include (you can choose from):

- 3D design
- Chrome
- Glitter
- Foil / flakes
- Blooming gel
- 4D gel
- Pre-made charms

- Airbrushing
- Stamping

Competitors taking part in this competition will also be marked on their personal and employability skills throughout the tasks using the criteria below, and therefore should also be able to demonstrate:

- Consultation document
- Professionalism - attitude and personal presentation
- Safe and hygienic working practices
- Effective communication with the client.
- Management of time allocation.
- Sustainable practices - competitors must demonstrate good sustainable practices, deduction of marks for excessive use or waste of materials
- Welsh language - Competitors must demonstrate verbally 2 occasions where incidental Welsh is used when communicating with their client. For example, during the greeting or at the end of the treatment.

## Infrastructure List

Competitors are required to bring their own ventilation for Health and Safety purposes.
A list of what you will need to bring:

- Ventilation.
- Bins
- UV/LED lamps “PAT tested”
- Extension leads “PAT tested”

## Competition Rules

For full terms and conditions of entry and competition rules visit.

**Conduct of competitors during the live competitions:**

- All competitors will receive a health and safety briefing at the start of the competition and these rules must be adhered to throughout the competition.
- Competitors will start and finish work as instructed by the judges.
- Any competitor who wishes to leave the area during the competition must seek the permission of the judges.
- Competitors will not be allowed contact with tutors/coaches during the live competition. Noncompliance with this may result in disqualification.
- If there is a power stoppage or accident, the competitors must act according to the instructions of the judges

## Generic competition rules

- Mobile phones can be used during the tasks for research purposes but are to be switched off during any presentations.
- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the judging panel.
- Competitors should not communicate with other teams during competition activity.
- It is the responsibility of each group of competitors to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the competition lead. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

## Marking and Assessment

Marking and judging of this competition will be done by a team of experts from Industry, Further Education or Training Provider, using a marking criteria and allocated marks to ensure consistency.

Competition Assessment criteria:

| Task | Criteria | Mark |
|---|---|---|
| 1 | Tip blending application & Nail prep | 25% |
| 2 | Acrylic application | 40% |
| 3 | Nail art mediums | 20% |
| 4 | Overall personal and employability skills | 15% |
| | **Total** | **100%** |

## Feedback and Recognition

Each task will be marked by the judging panel on the day, in the presence of the team. Verbal feedback will be given to the competitors at this point. No results or awards will be awarded on the day as marking will be quality assured.

All competitors will be issued with a Participation Certificate on the competition day. First, second, third and highly commended awards will be announced during the celebration event. The highly commended award recognises all competitors who have achieved above average. The celebration event will be held on Thursday 18th March 2027, further details will be communicated to competitors and their points of contact by email.

Marksheets will be available upon request via info@skillscompetitionwales.ac.uk to competitors after the celebration event.

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2027 – Skills Competition Wales 2027

## Competition Lead

Kristi Jones
Kristi.Jones@coleggwent.ac.uk

## Our partners

This competition is delivered in partnership with

Coleg Gwent

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Briff y Gystadleuaeth

## Teitl y Gystadleuaeth

Technegydd Ewinedd

## Trosolwg o'r Gystadleuaeth

Mae'r gystadleuaeth hon wedi'i chynllunio ar gyfer dysgwyr sy'n frwdfrydig ac yn awyddus i ddilyn gyrfa yn y diwydiant ewinedd. Mae’n gyfle gwych iddynt ddangos eu sgiliau lefel uchel a chystadlu yn erbyn cymheiriaid o bob cwr o Gymru, gan roi llwyfan iddynt arddangos eu doniau a’u proffesiynoldeb.

Bydd y gystadleuaeth yn herio dysgwyr mewn meysydd allweddol fel rheoli amser, defnyddio Acrylig, a sylw i fanylder trwy ddefnyddio technegau celf ewinedd creadigol. Mae'r rhain yn sgiliau hanfodol yn y diwydiant a fydd yn cefnogi eu datblygiad ac yn meithrin hyder mewn lleoliad proffesiynol.

Bydd cymryd rhan yn y gystadleuaeth hon yn gwella profiad dysgwyr ac yn darparu tystiolaeth werthfawr ar gyfer eu portffolio a'u CV, gan eu cefnogi wrth ymgeisio am swyddi o fewn y diwydiant yn y dyfodol.
Gan fod Acrylig yn un o’r triniaethau ewinedd mwyaf poblogaidd ar hyn o bryd, bydd alinio’r gystadleuaeth gyda’r duedd hon yn gwella sgiliau cyflogadwyedd dysgwyr ymhellach, ac yn sicrhau eu bod yn datblygu technegau perthnasol a chyfredol y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.

Bydd rhagbrofion cystadlu byw yn cael eu cynnal mewn lleoliadau amrywiol ledled Cymru, os oes angen.

## Meini Prawf Mynediad

Mae’r gystadleuaeth hon ar gyfer y rhai sy’n hyfforddi ar gyfer dilyn gyrfa yn y diwydiant Technoleg Ewinedd ac sy’n astudio tuag at gymhwyster harddwch neu ewinedd Lefel 3 cymeradwy, neu brentisiaeth, trwy gorff dyfarnu. Gall dysgwyr Lefel 2 hefyd ymgeisio, ond

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2025 – Skills Competition Wales 2025

gwnewch yn siŵr bod eich ymgeiswyr yn meddu ar y sgiliau a'r cymwyseddau i gwblhau'r dasg.

## Cyfyngiadau ar gapasiti mynediad fesul sefydliad

Uchafswm o 2 ymgeisydd ym mhob lleoliad. Gellir cofrestru **cronfeydd wrth gefn** hefyd i gyfrifon absenoldeb neu dynnu'n ôl os bydd angen.

Os bydd gormod o ymgeiswyr, bydd cam ychwanegol yn cael ei gyflwyno. Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr gyflwyno bwrdd syniadau i'w adolygu, a bydd cystadleuwyr ar gyfer y rownd derfynol yn cael eu dewis yn seiliedig ar hynny. Os bydd angen cyflwyno'r cam hwn, bydd Arweinydd y Gystadleuaeth yn anfon manylion pellach.

Dyma uchafswm y nifer o geisiadau a ganiateir o un sefydliad ar gyfer y gystadleuaeth hon. Dyma uchafswm nifer y ceisiadau cofrestru a ganiateir gan sefydliad ar gyfer y gystadleuaeth hon. Pennir hyn gan 'leoliad' a 'sefydliad'. Mae 'Sefydliad' yn cyfeirio at ddarparwr hyfforddiant/cyflogwr y cystadleuwyr. Mae 'Lleoliad' yn cyfeirio at safle lle mae'r cystadleuydd yn astudio / yn cael ei gyflogi.

Gall y gystadleuaeth hon fod yn destun proses ddethol os yw'r niferoedd cofrestru cystadleuwyr yn fwy na chapasiti'r lleoliad cynnal. Lle nodir bod capasiti ar gyfer y gystadleuaeth, gellir gwahodd cystadleuwyr wrth gefn i gystadlu. Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud yn dilyn ymgynghoriad rhwng Cystadleuaeth Sgiliau Cymru ac arweinydd y gystadleuaeth ar ôl i'r cofrestru gau. Bydd pob parti yn cael gwybod am unrhyw newidiadau.

Am arweiniad pellach ar y capasiti hyn, cliciwch yma.

## Briff

Mae'n ofynnol i gystadleuwyr gwblhau set lawn o estyniadau ewinedd gyda throshaen Acrylig pinc naturiol, wedi'i orffen gyda chelf ewinedd gan ddefnyddio o leiaf dri chyfrwng gwahanol. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau ymgynghoriad gyda'ch cleient cyn y driniaeth a dewch â'r wybodaeth gyda chi ar ddiwrnod y gystadleuaeth.

**Tasg 1** – Paratoi, Gosod a Chyfuno Blaenau (1 awr)
Mae'n rhaid i gystadleuwyr baratoi'r ewinedd, ac yna gosod a chyfuno blaenau ewinedd naturiol (ni chaniateir blaenau tryloyw). Bydd y cam hwn yn cael ei asesu'n seiliedig ar gymhwysedd a thechneg.

**Tasg 2** – Gosod ewinedd Acrylig (1 awr)
Mae'n ofynnol i gystadleuwyr osod troshaen Acrylig llawn dros yr ewinedd naturiol a'r estyniadau. Rhaid i'r ewinedd ddangos apig wedi'i strwythuro'n glir a gorffeniad taclus a phroffesiynol.

**Tasg 3** – Celf Ewinedd (30 munud)
Rhaid i gystadleuwyr greu dyluniad celf ewinedd ar o leiaf pedair ewin, gan ddefnyddio o leiaf dri chyfrwng celf ewinedd gwahanol a dilyn thema'r Gymraeg. Mae enghreifftiau o gyfryngau derbyniol yn cynnwys (gallwch ddewis ohonynt):

- Dylunio 3D
- Crôm
- Glitter
- Ffoil / naddion
- Gel blodeuo
- Gel 4D
- Addurniadau wedi'u gwneud ymlaen llaw
- Brwsio aer
- Stampio

Bydd cystadleuwyr sy'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth hon hefyd yn cael eu marcio'n seiliedig ar eu sgiliau personol a chyflogadwyedd trwy gydol y tasgau gan ddefnyddio'r meini prawf isod, ac felly dylent hefyd allu dangos:

- Dogfen ymgynghori
- Proffesiynoldeb - agwedd a chyflwyniad personol
- Arferion gweithio diogel a hylan
- Cyfathrebu effeithiol gyda'r cleient.
- Rheoli amser.
- Arferion cynaliadwy - rhaid i gystadleuwyr ddangos arferion cynaliadwy da. Caiff marciau eu tynnu am orddefnyddio neu wastraffu deunyddiau
- Y Gymraeg - Rhaid i gystadleuwyr ddangos dau achlysur lle defnyddir Cymraeg achlysurol wrth gyfathrebu â'u cleient ar lafar. Er enghraifft, wrth gyfarch neu gorffen y driniaeth.

## Rhestr Isadeiledd

Mae gofyn i'r cystadleuwyr ddod â'u hoffer awyru eu hunain at ddibenion Iechyd a Diogelwch. Rhestr o'r hyn y bydd angen i chi ddod gyda chi:

- Awyru.
- Biniau
- Lampau UV/LED "wedi'u profi drwy brawf PAT"
- Ceblau estyniad "wedi'u profi drwy brawf PAT"

## Rheolau'r Gystadleuaeth

I gael y telerau ac amodau mynediad llawn a rheolau cystadlu ewch i.

### Rheolau sy'n benodol i'r gystadleuaeth

- Bydd pob cystadleuydd yn derbyn cyfarwyddiadau iechyd a diogelwch ar ddechrau'r

gystadleuaeth a rhaid cadw at y rheolau hyn drwy gydol y gystadleuaeth.

- Bydd cystadleuwyr yn dechrau ac yn gorffen gwaith yn unol â chyfarwyddyd y beirniaid.
- Rhaid i unrhyw gystadleuydd sy'n dymuno gadael yr ardal yn ystod y gystadleuaeth ofyn am ganiatâd y beirniaid.
- Ni chaniateir i gystadleuwyr gysylltu â thiwtoriaid/hyfforddwyr yn ystod y gystadleuaeth fyw. Gall diffyg cydymffurfio â'r rheolau hyn arwain at anghymhwyso.
- Os oes toriad pŵer neu ddamwain, rhaid i'r cystadleuwyr weithredu yn unol â chyfarwyddiadau'r beirniaid.

**Rheolau cyffredinoly gystadleuaeth**

- Gellir defnyddio ffonau symudol yn ystod y tasgau at ddibenion ymchwil ond dylid eu diffodd yn ystod unrhyw gyflwyniadau.
- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth trwy glustffonau yn ystod y gweithgaredd cystadlu.
- Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau yn ystod y gweithgaredd cystadlau at y beirniadu.
- Ni ddylai cystadleuwyr gyfathrebu â thimau eraill yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth.
- Cyfrifoldeb pob grŵp o gystadleuwyr yw cyrraedd yn brydlon ar gyfer pob sesiwn gystadlu. Ni chaniateir amser ychwanegol os byddwch yn cyrraedd yn hwyr.
- Dylid rhoi gwybod ar unwaith i arweinydd y gystadleuaeth am fethiant technegol eich offer. Caiff amser ychwanegol ei neilltuo os yw'r nam y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.

## Marcio ac Asesu

Bydd tîm o arbenigwyr o fyd Diwydiant, Addysg Bellach neu Ddarparwr Hyfforddiant yn marcio ac yn beirniadu'r gystadleuaeth hon, a byddant yn defnyddio meini prawf marcio a marciau a ddyrennir er mwyn sicrhau cysondeb.

Meini prawf asesu cystadleuaeth:

| **Tasg** | **Meini prawf** | **Marc** |
|---|---|---|
| 1 | Gosod a chyfuno'r blaenau a pharatoi ewinedd | 25% |
| 2 | Gosod Acrylig | 40% |
| 3 | Cyfryngau celf ewinedd | 20% |
| 4 | Sgiliau personol a chyflogadwyedd cyffredinol | 15% |
| | **Cyfanswm** | **100%** |

## Adborth a Chydnabyddiaeth

Bydd pob tasg yn cael ei farcio gan panel y beirniaid ar y diwrnod, ym mhresenoldeb y tîm. Bydd adborth llafar yn cael ei ddarparu i'r cystadleuwyr ar yr adeg yma. Ni chyhoeddir unrhyw ganlyniadau na gwobrau ar y diwrnod, gan y bydd ansawdd y marcio yn cael ei sicrhau.

Bydd pob cystadleuydd yn cael Tystysgrif Cyfranogi ar ddiwrnod y gystadleuaeth. Bydd gwobrau cyntaf, ail, trydydd a chanmoliaeth uchel yn cael eu cyhoeddi yn ystod y digwyddiad dathlu. Mae'r wobr canmoliaeth uchel yn cydnabod yr holl gystadleuwyr sydd wedi cyflawni sgôr uwch na'r cyfartaledd. Cynhelir y digwyddiad dathlu ar Dydd Iau 18 Mawrth 2027, bydd manylion pellach yn cael eu rhoi i gystadleuwyr a'u pwyntiau cyswllt trwy e-bost.

Bydd taflenni marciau ar gael ar gais drwy info@skillscompetitionwales.ac.uk i gystadleuwyr ar ôl y digwyddiad dathlu.

## Arweinydd y Gystadleuaeth

Kristi Jones
Kristi.Jones@coleggwent.ac.uk

## Ein partneriaid

Mae'r gystadleuaeth hon yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth â